# CYNGOR CYMUNED *LLANWINIO* COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod Cyffredinol Blynyddol o Gyngor Cymuned Llanwinio ar nos Fawrth 15fed o Fai 2018 am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.

**PRESENNOL:** Cyng P Walton, J Phillips, H James, R Gallie, D Lewis a K Bowen (clerc).

**YMDDIHEURIADAU:** Cyng G Evans, W Evans a J Lewis (CSC).

**COFNODION:** Darllenwyd cofnodion y CCB blaenorol Mai 16eg 2017 a derbyniwyd hwy yn gywir.

**MATERION YN CODI:** Dim

**ADRODDIAD ARIANNOL:**

Trafododd y cynghorwyr yr adroddiad ariannol.

| | |
|---|---|
| Cyfrif Trysorydd | £2439.22 |
| Cyfrif Busnes | £9664.46 |

Gwnaeth y Cyngor gymeradwyo yr adroddiad ariannol am y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2018.

**ETHOL CADEIRYDD:**

Etholwyd Cyng H James fel Cadeirydd gan y cynghorwyr.

**ETHOL IS-GADEIRYDD:**

Etholwyd Cyng W Evans fel Is-Gadeirydd.

**PENODIAD O BWYLLGORAU NEWYDD:**

Penderfynodd y Cyngor greu pwyllgor Hawliau Ffordd a phwyllgor Tir a Asedau.

Roedd y rheolau sefydlog a’r rheolau ariannol priodol mewn lle.

Roedd y llechres o dir a asedau yn gyfoes.

Roedd yr yswiriant yn addas.

Roedd aelodaeth y Cyngor o gyrff eraill yn gyfoes.

Roedd dim eisiau newidiadau i drefn cwynion y Cyngor.

Roedd trefn y Cyngor o ddelio efo ceisiadau a wnaed o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a’r Ddeddf Diogelu Data 1998 yn gyfoes. Fe wnaeth y Cyngor nodi fod y Rheol Diogelu Data Cyffredinol yn dod yn gyfreithiol ar 25ain o Fai 2018 ac fe fyddai yn cymryd drosodd o’r Ddeddf Diogelu Data 1988.

**CYFLOG Y CLERC:**

Ar gais y Cadeirydd fe wnaeth y clerc adael yr ystafell yn ystod y drafodaeth ynglyn a chyflog y clerc. Ar ail ymuno'r cyfarfod hysbyswyd y clerc fod cyflog y clerc yn cynyddu i £1000.00 y flwyddyn, i ddechrau o Fai 2018.

**ASESIAD RISG:**

Adolygwyd yr asesiad risg gan y Cyngor. Yn dilyn cyngor gan y SDD ynglyn a'r Rheol Diogelu Data Cyffredinol Newydd penderfynwyd prynu cwpwrdd cloedig i ystorio dogfennau data personol a hard drive allanol i storio ffeiliau cyfrifiadurol. Penderfynwyd hefyd i gynnwys defnydd o gyngor proffesiynol fel rhan o'r safon asesu.